**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2014 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.00 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| R J Dutton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes) S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Simmons | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Cyng R J Dutton, y Cyng R O Jones, y Cyng G Lowe ac S Millington (Rheolwr Maes Dynodedig) i'w cyfarfod cyntaf o'r Panel Gweithredol.

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 GORFFENNAF 2014

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Prosiect Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013 – roedd Aelodau'r tri ATA yng Nghymru wedi penderfynu o'r blaen i beidio â chael cynrychiolaeth ar raglen y bwrdd, ond esboniodd y Cadeirydd y cytunwyd yn ddiweddarach, rhwng y tri Chadeirydd, y byddai'r tri PST yn sylwedyddion ar y bwrdd. Fodd bynnag, roedd bwrdd y rhaglen a'i gylch gorchwyl gwreiddiol wedi troi'n weithgor i lunio Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub newydd ar gyfer y dyfodol. Roedd y tri PST wedi mynychu'r cyfarfod cyntaf, a oedd yn nodi llywodraethiant a strwythur y gweithgor. Nid oedd unrhyw gyfarfodydd pellach wedi eu cynnal hyd yn hyn.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

6 CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried amrywiaeth o opsiynau o ran y gyllideb, ac yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd ymlaen wrth baratoi ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr pan fydd gofyn i'r Awdurdod osod ei gyllideb ar gyfer 2015/16.

6.2 Aeth y PST â'r Aelodau drwy'r adroddiad gan eu hatgoffa am sefyllfa bresennol yr Awdurdod ar ôl rhewi ei gyllideb am bedwaredd flwyddyn, a'r diffyg posibl o ryw £3.3 miliwn ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd sydd i ddod. Cafodd yr Aelodau wybod bod y ffigwr hwn yn cyfateb i gynnydd o 10%, ond ni ellir ei sicrhau ond drwy gael gwared ar yr hyn sy'n cyfateb i 25% o'r gweithlu gweithredol, cau gorsafoedd a thynnu peiriannau ymaith.

6.3 Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r awdurdodau tân ac achub leihau ei gyllideb hyd yn oed yn fwy nag awdurdodau lleol gan fod nifer y digwyddiadau tân yn gostwng yn gyffredinol. Roedd yr Aelodau wedi cael eu siomi gyda'r disgwyliad hwn gan ei bod yn ymddangos bod yr ATA yn dioddef o ganlyniad i'w lwyddiant ei hun yn gostwng nifer y digwyddiadau tân, anafiadau a marwolaethau.

6.4 Roedd pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi cael cyflwyniad yn amlinellu amcanion gwella'r ATA, ac roedd crynodeb o'r ymateb a gafwyd yn y cyfarfodydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Roedd CBS Conwy wedi cael cyflwyniad ar 23 Hydref a dywedodd y PST fod yr ymateb yng Nghonwy yn debyg i'r hyn a gafwyd yn yr awdurdodau lleol eraill.

6.5 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd gan y Dirprwy Glerc fod disgwyl i bob Aelod weithredu ers lles Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

6.6 Roedd Atodiad 4 i'r adroddiad yn nodi'r pwysau ariannu anocheladwy a dewisol, ynghyd â'r opsiynau sut i ariannu'r pwysau hynny a'r lefelau risg sy'n gysylltiedig. Roedd yr opsiynau a oedd yn ymwneud â chau gorsafoedd a thynnu peiriannau ymaith yn cael eu hystyried yn risg canolig i uchel a byddent yn golygu diswyddiadau gorfodol. Gallai'r weithdrefn i gau gorsaf gymryd mwy na blwyddyn felly ni fyddai arbedion yn dod ar unwaith. Hefyd, nid oes cynllun cenedlaethol ar gyfer diswyddiadau gwirfoddol mewn perthynas â diffoddwyr tân ac nid yw'r Awdurdod wedi cytuno ar bolisi ynglŷn â'r mater.

6.7 Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai lefel refeniw'r grant diogelwch tân cymunedol yn cael ei leihau 52%. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod eisoes wedi cytuno bod y grantiau yno ar gyfer gwaith penodol a phetai grant yn peidio â dod, yna byddai'r gwaith hefyd yn dod i ben. Y canlyniad fyddai i'r ATA wneud cais am grant llai a byddai'n rhaid lleihau'r gwaith diogelwch tân cymunedol yn unol â hynny.

6.8 Dyma'r opsiynau eraill a restrwyd yn atodiad 4:

- gostyngiad pellach yn nifer y rheolwyr canol gweithredol, a fyddai'n effeithio ar gydnerthedd a hefyd, o bosibl, yn golygu diswyddiadau gorfodol
- mynd at lai o ddigwyddiadau'n ymwneud â Larymau Tân Awtomatig – byddai hyn yn golygu ymdrin yn gadarnach fyth â larymau o'r fath, a gwnaethpwyd hyn eisoes
- tynnu ymaith y ddarpariaeth ar gyfer dyletswyddau anstatudol
- rhoi'r gorau i ariannu Atal Tân.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am yr opsiynau uchod.

6.9 I ateb cwestiwn gan Aelod ynglŷn â'r llwybr trosglwyddo asedau a throsglwyddo gorsaf dân i'r gymuned leol i'w rheoli gan wirfoddolwyr, roedd aelodau eraill, a'r Prif Swyddog Tân, yn hynod bryderus am y cysyniad hwn, o ran materion iechyd a diogelwch ac oherwydd natur arbenigol gwaith tân ac achub.

6.10 Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod unrhyw ddatrysiadau ac argymhellion yn rhai ar gyfer llywio'r swyddogion at y cyfarfod ym mis Rhagfyr ac efallai byddai'n rhaid eu haddasu yng ngoleuni'r ymatebion a ddaw i law i'r ymgynghoriad. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd y bydd gofyn i bob awdurdod lleol dalu os bydd yr ATA yn penderfynu cynyddu'r ardoll.

6.11 Ar ôl trafod y gwahanol faterion ac opsiynau am gryn amser, bu'r Aelodau'n ystyried y pwysau ariannol fel y nodir yn atodiad 4, a **PHENDERFYNWYD**

(i) argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub:

- peidio â lleihau'r gyllideb i lefel arian y Cyllid Allanol Cyfun;
- peidio â lleihau'r gyllideb 4% fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl;
- nodi'r gostyngiad yn y grant diogelwch cymunedol – y refeniw tua £257k a'r cyfalaf tua £230k. Roedd yr Aelodau'n awyddus fod yr ATA yn cyflwyno cais am y grant llai ar gyfer diogelwch tân cymunedol, a bod y gwaith yn cael ei lunio yn unol â hynny ar yr amod fod prosiect y Ffenics yn cael blaenoriaeth;
- os oes angen, bod yr ardoll yn codi hyd at swm sy'n cyfateb i £1 y pen o'r boblogaeth.

(ii) gofyn i ragor o wybodaeth gael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod ynglŷn â'r opsiynau canlynol:

- rhagor o ostyngiad yn nifer swyddi rheolwyr canol yr ochr weithredol
- mynd at lai o larymau tân awtomatig
- rhoi'r gorau i gyflawni dyletswyddau anstatudol
- rhoi'r gorau i ariannu Atal Tân.

(iii) cynnal cyfarfod arbennig o'r Awdurdod llawn, yn benodol i drafod materion y gyllideb a'r wybodaeth y gofynnir amdani uchod. Nodwyd y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ar 2il Rhagfyr am 10 y bore yng Nghanolfan Fusnes Conwy.

7 MONITRO PERFFORMIAD

7.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad monitro perfformiad a rhoi dadansoddiad manwl i'r Aelodau o'r wybodaeth am berfformiad yn hanner cyntaf y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2014 a 30 Medi 2014.

7.2 Bu gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2013/14, ac roedd mwy o bobl wedi llwyddo i ddianc o dân damweiniol yn ddianaf a heb angen cymorth. Gellid priodoli hyn yn rhannol i'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref sy'n cael eu cynnal, ynghyd â'r cyngor hollbwysig a ddarperir yn ystod ymweliad ynglŷn â sut i atal tân a sut i adael eiddo'n ddiogel petai tân yn cychwyn.

7.3 Roedd yn annhebygol y byddai'r targed i gynnal 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael ei gyrraedd eleni oherwydd y trafferthion ariannu ac effaith y gweithredu diwydiannol. Roedd pwysau hefyd ar y mudiadau gwirfoddol sy'n cynnal archwiliadau, ac roedd hyn wedi golygu bod llai wedi cael eu cynnal. Da oedd nodi fodd bynnag fod atgyfeiriadau'n dal i gyrraedd gan sefydliadau sy'n bartneriaid inni ac mae'r rhain dros 30% o'r holl atgyfeiriadau sy'n dod i law.

7.4 Ar y cyfan bu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd atynt ond bu cynnydd yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2013-14; fodd bynnag, heblaw am y cynnydd hwn yn 2014-15 bu tueddiad parhaus am i lawr ers 2008-09.

7.5 Roedd nifer y tanau bwriadol wedi gweld gostyngiad cyson a gellid priodoli hyn yn rhannol i waith y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. O ran galwadau diangen maleisus nodwyd bod pobl ifanc, fel rhan o raglen addysg mewn ysgolion, yn cael gwybod y bydd eu ffonau symudol yn cael eu dadweithredu os darganfyddir eu bod yn gwneud galwadau maleisus.

7.6 I ateb cais gan aelod i gael rhagor o wybodaeth am danau damweiniol mewn anheddau, yr hyn sy'n eu hachosi ac ym mha ystafell y bu iddynt gychwyn, y galwadau diangen nad aethpwyd atynt a chyfanswm y galwadau brys yn 2013-14, darparwyd dogfen wybodaeth atodol i'r Aelodau er gwybodaeth.

7.7 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad a'r wybodaeth atodol a ddarparwyd ynglŷn â hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2014-15.**

8 PROSIECT Y GYD-GANOLFAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS

8.1 Cyflwynodd ACFO Fairhead yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am Brosiect y Gyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a thynnu sylw at y rhan y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei chwarae yn y mater.

8.2 Nod y Gyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yw uno timau dwy ystafell reoli Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y De ac adleoli'r tîm cyfun newydd i ystafell reoli frys Heddlu De Cymru ym Mhenybont-ar-Ogwr. Enw'r ganolfan hon fydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.

8.3 Esboniodd y PSTC Fairhead fod nifer o feysydd gorchwyl i'r prosiect, a'r ddau sydd fwyaf risg-gritigol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw caffael system gorchymyn a rheoli newydd ar gyfer de a gogledd Cymru, a pharhad busnes.

8.4 Mae un o swyddogion Gogledd Cymru wedi cael ei secondio i'r prosiect i arwain ar ffrwd waith y system gorchymyn a rheoli, ac roedd yr Aelodau'n cefnogi'r secondiad hwn a fydd yn sicrhau lles buddiannau ATAGC. Cytunwyd i wahodd Peter Davis i un o'r cyfarfodydd yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar waith y prosiect.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi hynt Prosiect y Gyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.**

9 RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS

9.1 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am Raglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (Rhaglen yr ESMCP) a risgiau posibl y prosiect cenedlaethol hwn sy'n cynnwys pob gwasanaeth brys yn y Deyrnas Unedig. Ymhob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, bydd darparu cysylltiadau radio, drwy gontract sy'n cael ei gaffael yn genedlaethol, yn dod i ben yn Rhagfyr 2016. Mae prosiect newydd, o'r enw Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys, wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi.

9.2 Esboniodd y DBST fod hwn yn brosiect risg-gritigol. Roedd yr Aelodau'n bryderus o weld y risgiau a oedd yn cynnwys amserlenni'n peidio â chael eu cyrraedd, a'r system newydd o bosibl yn methu darparu gallu gweithredol derbyniol, gan gynnwys signal a chydnerthedd. Un o'r prif bryderon yn ymwneud ag amserlenni oedd y posibilrwydd na fydd y system yn ei lle yng Ngogledd Cymru cyn i'r contract presennol ddod i ben, a byddai hyn yn golygu bod yn rhaid negodi estyniad gyda'r contractwr presennol, sy'n debygol o fod yn ddrud. Oherwydd y risg critigol hwn, ystyriai'r aelodau mai doeth fyddai gwneud darpariaeth flynyddol i gwrdd â'r costau posibl ond anhysbys. Nodwyd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn darparu grant ar hyn o bryd tuag at gost y system bresennol, ond nid yw Llywodraeth Cymru mewn unrhyw sefyllfa i warantu y bydd y grant hwn yn parhau yn y dyfodol.

9.3 Roedd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi derbyn adroddiad ac wedi trafod y pryderon hyn. Bydd y swyddogion yn monitro'r sefyllfa'n agos, a bydd yr aelodau'n cael gwybod am ddatblygiadau ac unrhyw gostau a ragwelir.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a chytuno bod arian yn cael ei roi o'r neilltu mewn darpariaeth i liniaru costau ymestyn y contract a/neu gostau pontio.**

10 TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH

10.1 Cafodd y dystysgrif cydymffurfiaeth a roddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru eu chyflwyno i'r Aelodau. A chafodd Steve Barry o Swyddfa Archwilio Cymru ei gyflwyno i'r Aelodau gan mai ef yw'r Swyddog Arweiniol Perfformiad ac y bydd yn dod i gyfarfodydd yn y dyfodol.

10.2 Roedd y dystysgrif cydymffurfiaeth yn dod yn lle'r llythyr asesiad gwella, ac yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ynghylch gwella dan Fesur Llywodraeth Leol 2009.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r dystysgrif cydymffurfiaeth.**

RHAN II – Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes (eitemau busnes) canlynol yn cael eu trafod gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

11 RHEOLI PARHAD BUSNES

11.1 Rhoddodd y PST ddiweddariad i'r Aelodau am ddatblygiadau'r gweithredu diwydiannol gan Undeb yr FBU ynglŷn â diwygio pensiynau. Ni fu unrhyw streic ers mis Awst. Ar 23 Hydref 2014 cafwyd gwybod gan Lywodraeth Cymru fod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cysylltu â'r Undeb i ddweud ei bod yn barod i drafod materion. Nid oes yr un streic yn yr arfaeth yng Nghymru.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a bod yr Aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau pellach.**